Is-etholiadau Senedd y DU

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 3 o 6 – Gwariant a rhoddion

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500
E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith os dilynwch y canllawiau hyn.

Rydym yn defnyddio **'rhaid'** wrth gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio **'dylai'** ar gyfer eitemau sy'n arferion da sylfaenol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Beth sy'n digwydd os na fyddwch yn dilyn y rheolau?

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol na rheoleiddiol, gallwch wynebu cosbau troseddol. Os enillwch yr etholiad a bod rhywun yn llwyddo mewn deiseb etholiadol yn erbyn gweithgareddau neu adroddiadau eich ymgyrch, gallech gael eich gwahardd rhag dal swydd.

Os derbyniwch roddion na allwch eu derbyn yn gyfreithiol, gallwn wneud cais i'r llysoedd am iddynt gael eu fforffedu.

Mae rhagor o wybodaeth am rôl reoleiddio'r Comisiwn yn:

https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/gorfodi

Gwariant a rhoddion

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y rheolau ar wariant a rhoddion i ymgeiswyr ac asiantiaid yn y cyfnod cyn is-etholiad Seneddol yn y DU.

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- y cyfnod a reoleiddir
- faint y gallwch ei wario
- y gweithgareddau a gwmpesir gan y rheolau
- pa roddion y gallwch eu derbyn
- sut i wirio rhoddion a gewch
- cofnodi gwariant a rhoi gwybod amdano

Ffurflenni a nodiadau eglurhaol:

- Ffurflen gwariant ymgeiswyr
- Ffurflen gwariant ymgeiswyr: Nodiadau esboniadol
- Datganiad yr ymgeisydd
- Datganiad yr asiant

Newidiadau allweddol i’r canllawiau ar gyfer mis Tachwedd 2023

Mater	Newid	Tudalen
Terfyn gwariant	Diweddariadau i adlewyrchu'r terfynau gwariant newydd	6

Cyflwyniad

Rhaid i ymgeiswyr a'u hasiantiaid mewn is-etholiad Seneddol yn y DU ddilyn rheolau penodol ynghylch faint y gallant ei wario, gan bwy y gallant dderbyn rhoddion a beth y mae'n rhaid iddynt roi gwybod amdano ar ôl yr etholiad.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio'r rheolau hyn.

Mae **Adran A** yn nodi'r rheolau ynglŷn â faint y gallwch ei wario, y gweithgareddau a gwmpesir gan y rheolau a pha wybodaeth y mae angen ei chofnodi.

Mae **Adran B** yn nodi'r rheolau ynglŷn â rhoddion, sut i wirio a allwch eu derbyn a pha gofnodion y mae'n rhaid i chi eu cadw. Mae rhoddion yn cynnwys cyfraniadau o arian, nwyddau neu wasanaethau tuag at eich gwariant.

Mae **Adran C** yn esbonio sut i roi gwybod am gyllid eich ymgyrch ar ôl yr etholiad. **Hyd yn oed os nad ydych wedi gwario unrhyw arian, rhaid i chi gyflwyno adroddiad o hyd.**

Yr asiant etholiad sy'n bennaf cyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau.

Fodd bynnag, ar ôl yr etholiad, rhaid i'r ymgeisydd a'r asiant lofnodi datganiadau yn dweud bod eu ffurflen gwariant a rhoddion yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eu gwybodaeth.

Mae hyn yn golygu bod angen hefyd i ymgeiswyr fod yn gwbl ymwybodol o'r rheolau a sicrhau bod eu hasiant yn eu dilyn.

Rydym yn defnyddio ‘chi’ i gynnwys yr ymgeisydd a'r asiant.

Mae'r ddogfen hon yn rhan o'n cyfres o ganllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am agweddau eraill ar sefyll etholiad ar ein tudalen canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Adran A - Eich gwariant

Mae'r adran hon yn nodi'r rheolau ynglŷn â faint y gall ymgeisydd ei wario, y gweithgareddau a gwmpesir gan y rheolau a pha wybodaeth y mae angen ei chofnodi.

Trosolwg o'r rheolau

Mae'r rheolau ynglŷn â gwariant yn gymwys i wariant ar weithgareddau i hyrwyddo'ch ymgeisyddiaeth neu feirniadu ymgeiswyr eraill yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Mae'r cyfnod a reoleiddir yn adeg benodol pan fydd y terfynau gwariant a'r rheolau yn gymwys. Ar gyfer etholiad Seneddol **cyffredinol** yn y DU, ceir dau gyfnod a reoleiddir fel arfer i ymgeiswyr y cyfeirir atynt fel yr 'ymgyrch fer' a'r 'ymgyrch hir'. Ar gyfer **is-etholiad** Seneddol yn y DU, **dim ond un** cyfnod a reoleiddir a geir. Ceir rhagor o wybodaeth am y cyfnod a reoleiddir ar dudalen 5 o'r canllawiau hyn.

Mae gwariant ymgeiswyr yn cynnwys unrhyw dreuliau yr eir iddynt, p'un a yw hynny ar nwyddau, gwasanaethau, eiddo neu gyfleusterau, at ddibenion etholiad yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Mae hyn yn cynnwys:

- eitemau neu wasanaethau a brynwyd cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, ond a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod hwnnw
- eitemau neu wasanaethau a roddwyd i chi am ddim neu a roddwyd i chi am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%, sef gwariant tybiannol

Ceir rheolau sy'n cwmpasu:

- pwy all awdurdodi gwariant a thalu am eitemau a gwasanaethau
- faint y gallwch ei wario
- pa weithgareddau sy'n cyfrif tuag at eich terfyn gwariant
- terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau
- pa gofnodion y mae'n rhaid i chi eu cadw
- sut a phryd rydych yn rhoi gwybod am eich gwariant

Gelwir gwariant ymgeiswyr yn 'dreuliau' yn aml.

Weithiau, mae pobl yn meddwl bod hyn yn golygu y gall gwariant gael ei ad-dalu gan y cyngor lleol, neu gennym ni. Nid felly y mae. Nid oes gennych hawl i adennill unrhyw wariant o arian cyhoeddus.

Eich cyfrifoldeb **chi** yw rhoi gwybodaeth lawn a chywir am wariant ymgeisydd. Dylech sicrhau eich bod yn deall y rheolau a bod pob gwariant wedi'i awdurdodi a'i gofnodi ac y rhoddir gwybod amdano'n gywir.

Pryd y bydd y rheolau ynglŷn â gwariant a rhoddion ymgeiswyr yn gymwys?

Os ydych yn dechrau gwario arian ar ymgyrchu ond yn penderfynu peidio â sefyll fel ymgeisydd yn ddiweddarach, neu os caiff eich enwebiad ei wrthod am unrhyw reswm, ni fydd angen i chi gyfrif am eich treuliau yn ystod y cyfnod a reoleiddir na chyflwyno ffurflen.

Mae'r rheolau ynglŷn â gwariant a rhoddion ymgeiswyr yn gymwys yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Rhaid i chi aros o fewn y terfyn gwariant ar gyfer y cyfnod a reoleiddir. Dylech hefyd gadw cofnodion ar wahân o'ch gwariant a'ch rhoddion ar gyfer y cyfnod a reoleiddir.

Y cyfnod a reoleiddir

Mae'r cyfnod a reoleiddir yn dechrau ar **y diwrnod ar ôl** i chi ddod yn ymgeisydd yn swyddogol, ac yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio. Y dyddiad cynharaf y gallwch ddod yn ymgeisydd yn swyddogol yw'r diwrnod y daw'r swydd yn wag.

Byddwch yn dod yn ymgeisydd ar y dyddiad hwn os ydych chi neu eraill eisoes wedi cyhoeddi eich bwriad i sefyll. Er enghraifft, efallai fod eich plaid wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg pan gawsoch eich dewis, neu efallai eich bod wedi cyhoeddi'ch bwriad mewn cyfarfod i drigolion.

Mae rhagor o wybodaeth am ddod yn ymgeisydd ar gael ar ein gwefan:

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Os nad yw'ch bwriad i sefyll wedi cael ei gyhoeddi erbyn hynny, byddwch yn dod yn ymgeisydd yn swyddogol ar y dyddiad cynharaf o'r rhain:

- y dyddiad yr ydych chi neu berson arall yn datgan eich bwriad i sefyll
- y dyddiad y cawsoch eich enwebu

Faint y gallaf ei wario?

Y terfyn gwariant ar gyfer ymgeiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir mewn is-etholiad Seneddol yn y DU yw **£180,050**.

Beth sy'n cyfrif fel gwariant ymgeisydd?

Mae gwariant ymgeisydd yn cynnwys costau:

- **hysbysebion o unrhyw fath.** Er enghraifft, posteri, hysbysebion mewn papurau newydd, gwefannau neu fideos YouTube.
- **deunydd a anfonir at bleidleiswyr yn ddigymell.** Er enghraifft, llythyrau, taflenni neu negeseuon e-bost a anfonwch nad ydynt mewn ymateb i ymholiadau penodol.
- **cludiant i chi neu'ch ymgyrchwyr.** Er enghraifft, ceir wedi'u llogi neu gludiant cyhoeddus i chi (er gweler ‘Treuliau personol’ ar dudalen 25) neu'ch ymgyrchwyr
- **cyfarfodydd cyhoeddus**
- **costau staff.** Er enghraifft, cyflog asiant, neu staff wedi'u secondio gan eu cyflogwyr i chi. Nid oes angen i chi gynnwys amser a dreulir ar eich ymgyrch gan wirfoddolwyr.
- **swyddfeydd.** Er enghraifft, swyddfa'ch ymgyrch.
- **costau gweinyddol.** Er enghraifft, biliau ffôn, deunydd ysgrifennu, llungopïau a defnyddio cronfeydd data.

Rhaid rhoi gwybod am daliadau am ymgyrchoedd digidol. Mae'r un rheolau'n berthnasol i wariant ymgeiswyr ar hysbysebu, p'un a ydych yn defnyddio technegau hirsefydlog, megis ymgyrchoedd postio deunydd argraffedig, neu rai mwy newydd, megis hysbysebion ar-lein.

Pwysig

Ar gyfer pob gweithgarwch, rhaid i chi gynnwys yr holl gostau cysylltiedig. Er enghraifft, os ydych yn llunio taflenni neu hysbysebion, rhaid i chi gynnwys y costau dylunio a dosbarthu.

Rhoddir mwy o fanylion am bob categori ar y tudalennau canlynol.

Hysbysebion o unrhyw fath

Costau cyffredinol:

Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- safle neu gyfleusterau
- cyfarpar

a ddefnyddir i:

- baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu deunydd ar gyfer hysbyseb
- lledaenu deunydd hysbysebu drwy ddosbarthu neu fel arall

Er enghraifft, llogi ffotograffydd a safle i gynhyrchu delweddau i'w defnyddio mewn deunydd hysbysbeu.

Costau penodol mewn cysylltiad â chynhyrchu neu ledaenu deunydd hysbysebu digidol neu electronig

Meddalwedd
Mae'n cynnwys cost meddalwedd o unrhyw fath i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais i:

- ddylunio a chynhyrchu deunydd hysbysebu yn fewnol
- lledaenu neu hwyluso'r broses o ledaenu deunydd hysbysebu

p'un a gaiff y deunydd hwnnw ei ddosbarthu'n ddigidol, yn electronig neu drwy ddulliau eraill.

Er enghraifft, ffi drwyddedu neu feddalwedd i'w defnyddio ar unrhyw ddyfais.

Gwasanaethau, cyfleusterau a chyfarpar

Mae'n cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- safle neu gyfleusterau
- cyfarpar

a ddefnyddir i

- baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu deunydd hysbysebu digidol neu electronig
- dosbarthu neu hwyluso'r broses o ledaenu'r deunydd hysbysebu hwnnw mewn unrhyw ffordd

gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i wneud y cynnwys yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull

Er enghraifft, prynu lle mwy blaenllaw ar dudalen mewn chwilotwr.

Gwefannau a deunydd digidol arall

Mae'n cynnwys costau:

- lletya a chynnal gwefan neu ddeunydd electronig/digidol arall sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd
- dylunio ac adeiladu'r wefan
- cyfran o unrhyw wefan neu ddeunydd sy'n cael ei sefydlu i godi arian ar gyfer yr ymgeisydd ond sydd hefyd yn hyrwyddo'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir

Deunydd i'w rannu

Mae'n cynnwys cost paratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu deunydd hysbysebu:

- i'w lawrlwytho a'i ddefnyddio gan bobl eraill
- i'w rannu ar unrhyw fath o sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol neu i hyrwyddo'r ymgeisydd drwy ddull o'r fath

Er enghraifft, costau cynhyrchu deunydd hysbysebu yn hyrwyddo'r ymgeisydd a gaiff ei rannu ar dudalen ar sianel cyfryngau cymdeithasol yn annog dilynwyr i'w rannu.

Deunydd y gellir ei lawrlwytho

Os rhoddwch ddeunydd ar wefan i bobl ei argraffu at eu defnydd personol, fel posteri ffenestr neu ffurflenni deiseb, bydd y costau dylunio a chostau'r wefan yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd. Nid oes angen i chi gyfrif costau argraffu pobl yn erbyn eich terfyn gwariant, oni bai bod pobl yn argraffu dogfennau ar eich rhan.

Os gallai'r deunydd gael ei argraffu a'i ddosbarthu i bleidleiswyr – er enghraifft, taflen – bydd angen i chi esbonio sut rydych yn disgwyl i bobl ei ddefnyddio.

Os byddwch yn awdurdodi defnydd ehangach o'r deunydd, gall y costau cynhyrchu gyfrif fel gwariant ymgeisydd ni waeth pwy sy'n gwneud y gwaith argraffu.

Rhwydweithiau

Mae'n cynnwys cost cyrchu, prynu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n:

- hwyluso'r broses o ddosbarthu neu ledaenu deunydd hysbysebu drwy unrhyw ddull
- hyrwyddo deunydd hysbysebu neu'n ei wneud yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull

Er enghraifft, prynu hunaniaethau digidol a ddefnyddir i wneud i ddeunydd ymddangos fel petai wedi cael ei weld a'i gymeradwyo gan nifer mawr o ddefnyddwyr ar lwyfan y cyfryngau cymdeithasol.

Costau eraill sydd wedi'u cynnwys

Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunydd hysbysebu.

Mae'n cynnwys cost:

- papur neu unrhyw gyfrwng arall y mae'r deunydd hysbysebu yn cael ei argraffu arno
- arddangos hysbysebion yn ffisegol mewn unrhyw leoliad, er enghraifft clymau neu lud i osod posteri

Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- cyfarpar llungopïo
- cyfarpar argraffu

a ddefnyddir yn ystod ymgyrch etholiadol yr ymgeisydd, heblaw lle:

- cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddefnydd personol yr ymgeisydd ei hun
- mae'n cael ei ddarparu gan unigolyn arall, cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr unigolyn hwnnw at ei ddefnydd personol ei hun ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd i'w ddefnyddio

Lle mae papur, cyfarpar llungopïo neu argraffydd yn cael ei brynu neu ei logi i'w ddefnyddio'n bennaf yn ystod yr ymgyrch, mae'n rhaid rhoi gwybod am y gost lawn.

Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw gyfarpar arall mewn perthynas â:

- pharatoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd hysbysebu
- lledaenu'r deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall

Mae'n cynnwys cost bwyd a/neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd hysbysebu i'r ymgeisydd y mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn talu amdano neu'n ei ad-dalu.

Deunydd a anfonir at etholwyr yn ddigymell

Costau sy'n gysylltiedig â chael gwybodaeth a thargedu neu nodi pleidleiswyr, gan gynnwys costau cronfeydd data
Mae hyn yn cynnwys cost cyrchu, cael, prynu, datblygu neu gynnal:

- meddalwedd TG neu gronfeydd data o fanylion cyswllt
- unrhyw wybodaeth, drwy ba ddull bynnag

a ddefnyddir i hwyluso'r broses o anfon deunydd digymell at bleidleiswyr.

Er enghraifft, prynu cyfeiriadau e-bost.

Mae'n cynnwys cost cyrchu, cael neu ddatblygu setiau data, gan gynnwys dadansoddeg data i dargedu pleidleiswyr drwy ba ddull bynnag, gan gynnwys cost asiantaethau, sefydliadau neu bobl eraill sy'n nodi grwpiau o bleidleiswyr, drwy ba ddull bynnag.

Er enghraifft, cost unrhyw asiantaeth a gaiff ei thalu i ddadansoddi cynnwys cyfryngau cymdeithasol er mwyn hwyluso'r broses o dargedu pleidleiswyr mewn ardal etholiadol benodol a chost modelu gan asiantaeth sy'n seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw.

Mae'n cynnwys cost unrhyw wasanaethau i nodi pleidleiswyr sy'n cael eu prynu, eu datblygu neu eu darparu cyn y cyfnod a reoleiddir, ond a ddefnyddir i dargedu pleidleiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Lle ceir gwybodaeth neu fynediad at wybodaeth gan drydydd parti, gan gynnwys plaid wleidyddol, mae cost fasnachol cael yr wybodaeth honno gan y trydydd parti wedi'i chynnwys.

Costau sy'n gysylltiedig â pharatoi, cynhyrchu neu ddosbarthu deunydd digymell i bleidleiswyr, gan gynnwys drwy ddulliau digidol

Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- safle neu gyfleusterau
- cyfarpar

a ddefnyddir i:

- baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd digymell
- lledaenu'r deunydd digymell drwy ei ddosbarthu neu fel arall, gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i wneud y deunydd yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull

Mae'n cynnwys cost dosbarthu deunydd drwy unrhyw ddull gan gynnwys dulliau electronig neu ddosbarthu'r deunydd yn ffisegol, er enghraifft cost amlenni a stampiau neu brynu system ar gyfer anfon negeseuon e-bost.

Mae'n cynnwys cost cyrchu, datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n hyrwyddo deunydd digymell ar unrhyw lwyfan neu sy'n ei wneud yn fwy gweladwy ar unrhyw lwyfan. Er enghraifft, os bydd ymgeisydd yn talu datblygwr i greu ap sy'n hwyluso'r broses o dargedu ei ddeunydd ar sianel cyfryngau cymdeithasol.

Mae'n cynnwys cost goruchwylio a chynnal pob cyfrwng cymdeithasol, dull digidol neu ddulliau eraill o ddosbarthu deunydd digymell. Mae hyn yn cynnwys cynnal pob cyfrif ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys os yw'n cael ei gynnal gan endid/unigolyn arall.

Costau eraill sydd wedi'u cynnwys

Mae'n cynnwys cost unrhyw hawliau neu ffi drwyddedu ar gyfer unrhyw ddelwedd a ddefnyddir wrth gynhyrchu deunydd digymell.

Mae'n cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall y mae'r deunydd digymell yn cael ei argraffu arno.

Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- cyfarpar llungopïo
- cyfarpar argraffu

a ddefnyddir yn ystod ymgyrch etholiadol yr ymgeisydd, heblaw lle:

- cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr ymgeisydd yn bennaf at ddefnydd personol yr ymgeisydd ei hun
- mae'n cael ei ddarparu gan unigolyn arall, cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr unigolyn hwnnw at ei ddefnydd personol ei hun ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd i'w ddefnyddio

Lle mae papur, cyfarpar llungopïo neu argraffydd yn cael ei brynu neu ei logi i'w ddefnyddio'n bennaf yn ystod yr ymgyrch, mae'n rhaid rhoi gwybod am y gost lawn.

Mae'n cynnwys cost prynu a defnyddio unrhyw gyfarpar arall mewn perthynas â:

- pharatoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd digymell
- lledaenu'r deunydd digymell drwy ei ddosbarthu neu fel arall

Mae'n cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaeth mewn cysylltiad â deunydd digymell i'r ymgeisydd y mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn talu amdano neu'n ei ad-dalu.

Costau nad ydynt wedi'u cynnwys

Nid yw'n cynnwys costau postio'r cyfeiriad etholaethol am ddim.

Nid yw'n cynnwys unrhyw gost sy'n gysylltiedig â chael data fel y'i caniateir drwy statud neu reoliad.

Er enghraifft, mae gan ymgeiswyr yr hawl i gael copi o'r gofrestr etholiadol.

Costau cludiant

Mae'n cynnwys cost cludo ar gyfer yr asiant lle mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ei ad-dalu.

Cludo gwirfoddolwyr ac ymgyrchwyr

Mae'n cynnwys cost cludo:

- gwirfoddolwyr
- aelodau o'r blaid, gan gynnwys aelodau o staff
- ymgyrchwyr eraill

o gwmpas yr ardal etholiadol, neu i'r ardal etholiadol ac oddi yno, gan gynnwys cost:

- tocynnau ar gyfer unrhyw gludiant, gan gynnwys unrhyw ffi archebu
- llogi unrhyw gludiant
- tanwydd a brynir ar gyfer unrhyw gludiant
- parcio ar gyfer unrhyw gludiant

lle maent yn ymgyrchu ar ran yr ymgeisydd.

Mae'n cynnwys cost cludiant y telir amdano gan unrhyw unigolyn, plaid wleidyddol neu drydydd parti arall ac y bydd yr ymgeisydd, y blaid wleidyddol neu drydydd parti yn ei thalu neu'n ei had-dalu, lle roedd yr unigolion a oedd yn cael eu cludo yn ymgyrchu neu'n ymgymryd â gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r ymgyrch ar ran yr ymgeisydd.

Cludiant i ddigwyddiad

Mae'n cynnwys costau cludo'r rhai sy'n mynd i ddigwyddiad sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd lle mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ad-dalu'r gost honno neu'n talu'r gost honno.

Cludiant sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd

Mae'n cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy'n arddangos deunydd sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â:

- dylunio cynllun a'i osod ar y cerbyd neu'r math o gludiant
- gyrru neu symud cerbyd o amgylch ardal etholiadol benodol
- ffioedd parcio lle defnyddir cerbyd i arddangos deunydd

Costau nad ydynt wedi'u cynnwys

Nid yw'r costau canlynol wedi'u cynnwys:

- lle telir y gost gan yr unigolyn a ddefnyddiodd y cludiant, lle na chaiff y taliad hwnnw ei ad-dalu, neu
- lle darperir y cludiant yn ddi-dâl gan unrhyw unigolyn arall os cafodd y dull cludo ei gaffael gan y person hwnnw yn bennaf at ei ddefnydd personol ei hun

Mae ‘treuliau personol’ yn cynnwys treuliau teithio rhesymol yr ymgeisydd mewn perthynas â'r etholiad.

Lle mae cost cludo yn draul bersonol ac mai'r ymgeisydd sy'n ei thalu, mae'n rhaid i hon gael ei chofnodi fel traul bersonol ar y ffurflen gwariant. Nid yw treuliau personol yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

Gweler tudalen 26 i gael rhagor o wybodaeth am dreuliau personol.

Cyfarfodydd cyhoeddus o unrhyw fath

Gwasanaethau, safleoedd, cyfleusterau neu gyfarpar a ddarperir gan eraill
Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw:

- asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- gwasanaethau a ddarperir gan asiantaeth, unigolyn neu sefydliad
- safle neu gyfleusterau
- cyfarpar

a ddefnyddir i:

- hyrwyddo cyfarfod cyhoeddus
- cynnal cyfarfod cyhoeddus i hyrwyddo'r ymgeisydd
- ffrydio cyfarfod cyhoeddus yn fyw neu ei ddarlledu drwy unrhyw ddull

Costau eraill o dan gyfarfodydd cyhoeddus
Mae'n cynnwys cost hyrwyddo neu hysbysebu'r digwyddiad, drwy unrhyw ddull.

Mae'n cynnwys cost digwyddiad sy'n cael ei gynnal drwy ddolen o unrhyw fath neu sy'n cael ei ffrydio'n fyw neu ei ddarlledu, lle mae'r digwyddiad hwnnw yn agored i'w weld gan ddefnyddwyr sianel neu lwyfan neu drwy ddull arall.

Mae'n cynnwys cost darparu unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y digwyddiad, er enghraifft cost llogi seddi.
Mae'n cynnwys cost prynu unrhyw gyfarpar mewn perthynas â:

- chynnal cyfarfod cyhoeddus i hyrwyddo'r ymgeisydd
- ffrydio cyfarfod cyhoeddus yn fyw neu ei ddarlledu drwy unrhyw ddull

Mae'n cynnwys cost llety a threuliau eraill i unrhyw un sy'n bresennol lle mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall yn ad-dalu'r gost honno neu'n talu'r gost honno.

Costau nad oes angen i chi eu cynnwys

Nid oes angen i chi gynnwys:

- digwyddiadau a gynhelir i aelodau'ch plaid yn unig
- digwyddiadau a gynhelir yn bennaf at ddibenion ac eithrio'ch ymgyrch, lle mae'ch presenoldeb yn gysylltiedig – er enghraifft, digwyddiad cymdeithasol blynyddol lle rydych yn dweud ychydig o eiriau

Dylech wneud asesiad gonest yn seiliedig ar y ffeithiau ynghylch a yw'r cyfarfod wir yn cael ei gynnal at ddibenion eraill.

Efallai y cewch eich gwahodd i hustyngau a gynhelir gan sefydliadau lleol neu grwpiau cymunedol hefyd. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar wahân ar hustyngau sy'n esbonio pryd y bydd y rheolau ynglŷn â gwariant yn gymwys i'r digwyddiadau hyn o bosibl.

Costau staff

Costau asiantiaid
Mae hyn yn cynnwys unrhyw gydnabyddiaeth, gan gynnwys lwfansau, a delir i'r asiant.

Staff a gyflogir gan blaid wleidyddol
Mae'n cynnwys cost unrhyw aelod o staff plaid wleidyddol sy'n darparu gwasanaethau i'r ymgeisydd at ddibenion ethol yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir, neu sy'n darparu gwasanaethau i'r ymgeisydd at ddiben ethol yr ymgeisydd cyn y cyfnod hwnnw sy'n cael eu defnyddio wedyn yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Rhai enghreifftiau o gostau sy'n gysylltiedig â staff plaid wleidyddol:

- Mae aelod o staff plaid wleidyddol yn treulio ei oriau gwaith â thâl yn cydlynu gwaith ymgyrchu gwirfoddolwyr ar gyfer ymgeisydd mewn etholaeth benodol. Ystyrir bod ei amser gwaith at ddibenion etholiad yr ymgeisydd. Os caiff ei ddefnyddio gan neu ar ran yr ymgeisydd, yna rhaid i gostau talu'r aelod hwnnw o staff ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd fel gwariant tybiannol.

- Mae aelod o staff plaid wleidyddol yn treulio ei oriau gwaith â thâl ar nifer o weithgareddau ymgyrchu gwahanol, gan gynnwys hyrwyddo'r blaid yn gyffredinol a hyrwyddo ymgeisydd penodol. Ystyrir bod y gyfran o'i amser gwaith a dreulir yn hyrwyddo'r ymgeisydd at ddibenion ethol/etholiad yr ymgeisydd hwnnw. Os caiff ei ddefnyddio gan neu ar ran yr ymgeisydd, yna rhaid i'r gyfran honno o gostau talu'r aelod hwnnw o staff ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd fel gwariant tybiannol.

Fel cyferbyniad:

- Mae nifer o ymgeiswyr yn bresennol mewn sesiwn friffio ar addewidion maniffesto'r blaid a gynhelir gan staff y blaid a delir. Gan fod y pwyslais ar addewidion maniffesto'r blaid genedlaethol, nid ystyrir bod y sesiwn friffio at ddibenion eu hethol fel ymgeiswyr. Felly nid oes angen cynnwys gwariant yn ffurflenni'r ymgeisydd.

Staff sy'n monitro cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau eraill sy'n ymwneud â'r wasg

Mae'n cynnwys cost staff sy'n ymwneud â rheoli a monitro'r cyfryngau cymdeithasol a chael data er mwyn targedu gweithgarwch ymgyrchu. Mae hyn yn cynnwys cyflogi staff i ddadansoddi a didoli'r data a chost staff i fonitro unrhyw fath o gyfrwng cymdeithasol neu gyfrif arall, ac i gyhoeddi ar gyfryngau o'r fath neu ymateb iddynt.

Mae'n cynnwys cost staff sy'n ymwneud â rheoli gweithgareddau gyda'r wasg o unrhyw fath, gan gynnwys staff sy'n cydgysylltu ag unrhyw fath o weithgarwch yn y cyfryngau drwy unrhyw ddull, neu ei reoli neu ei fonitro mewn cysylltiad ag ethol yr ymgeisydd.

Unrhyw un arall lle defnyddir ei wasanaethau

Mae'n cynnwys cost unrhyw un arall lle defnyddir ei wasanaethau mewn cysylltiad ag ethol yr ymgeisydd.

Amser gwirfoddolwyr

Nid yw'n cynnwys cost gwasanaethau asiant nac unrhyw berson arall sy'n gwirfoddoli.

Nid oes angen i chi ychwaith gynnwys costau teithio, bwyd na llety pobl tra byddant yn ymgyrchu ar eich rhan, os byddant yn talu'r costau eu hunain.

Fodd bynnag, bydd unrhyw dreuliau rydych yn eu talu, neu'n eu had-dalu, fel cludiant neu lety, yn cyfrif fel gwariant.

Weithiau, efallai na fyddwch yn siŵr a yw rhywun sy'n gweithio dros eich ymgyrch yn wirfoddolwr neu a ddylech gyfrif ei amser tuag at eich terfyn gwariant. Er enghraifft, efallai fod yr unigolyn yn cynnig gwasanaethau tebyg yn broffesiynol i'r rhai y mae'n eu cyflawni i chi.

Bydd yn wirfoddolwr:

- os na fydd ei gyflogwr yn ei dalu am yr amser a dreulir ganddo ar eich ymgyrch, neu
- os bydd yn defnyddio ei wyliau blynyddol, neu
- os bydd yn hunangyflogedig, ni fyddwch yn elwa ar unrhyw yswiriant proffesiynol sydd ganddo

Os bydd yn defnyddio cyfarpar neu ddeunyddiau arbenigol, mae'n debygol y bydd hyn yn wariant tybiannol.

Costau llety a chostau gweinyddol

Swyddfa a chyfarpar
Mae hyn yn cynnwys cost rhentu swyddfa, gan gynnwys ardrethi busnes, ar gyfer ymgyrch yr ymgeisydd, boed yn swyddfa a gaiff ei rhentu o'r newydd neu o dan gytundeb rhent presennol, ac felly eir i gostau tybiannol lle darperir y fath swyddfa am ddim neu am bris gostyngol gan blaid wleidyddol neu drydydd parti.

Mae'n cynnwys cost swyddfa lle mae'r swyddfa honno yn cael ei rhannu. Mae'n rhaid dosrannu'r gost ac mae'n rhaid i swm, sy'n adlewyrchu'n rhesymol y defnydd gan yr ymgeisydd yn ystod yr ymgyrch, gael ei gynnwys yn y ffurflen i'r ymgeisydd. Bydd y swm hwn yn cyfrif tuag at derfyn gwariant yr ymgeisydd.

Mae'n cynnwys cost prynu, defnyddio neu logi unrhyw gyfarpar swyddfa cyffredinol ar gyfer ymgyrch yr ymgeisydd, ac felly eir i gostau tybiannol lle darperir y fath gyfarpar am ddim neu am bris gostyngol gan blaid wleidyddol neu drydydd parti.

Er enghraifft, desgiau, cadeiriau a chyfrifiaduron a ddarperir gan blaid i'w defnyddio yn ymgyrch yr ymgeisydd.

Mae'n cynnwys cost prynu, llogi neu ddefnyddio:

- ffonau symudol neu ddyfeisiau llaw eraill
- y contractau cysylltiedig

i'w defnyddio yn yr ymgyrch gan yr ymgeisydd, asiant ac unrhyw staff neu wirfoddolwyr, lle mae'r ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti sy'n talu am y cyfarpar hwnnw a/neu gostau cysylltiedig heblaw:

- lle prynodd yr ymgeisydd y cyfarpar yn bennaf at ei ddefnydd personol ei hun ac nad yw'r costau uwchlaw'r hyn yr eid iddynt fel arfer y tu allan i gyfnod etholiadol.
- mae'n cael ei ddarparu gan unigolyn arall, cafodd y cyfarpar ei gaffael gan yr unigolyn hwnnw at ei ddefnydd personol ei hun, nid yw'r costau uwchlaw'r hyn yr eid iddynt fel arfer y tu allan i gyfnod etholiadol, ac ni chodir tâl ar yr ymgeisydd i'w ddefnyddio.

Rhai enghreifftiau o gostau sy'n gysylltiedig â ffonau symudol:

- Os prynir cerdyn SIM â lwfans data a galwadau i ymgeisydd ar gyfer ei ymgyrch, byddai hyn yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.
- Os defnyddir ffôn symudol gwirfoddolwr i gydlynu gwirfoddolwyr eraill, ac y caiff cyfran o daliadau'r contract ei had-dalu gan yr ymgeisydd i'r gwirfoddolwr, byddai hyn yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.
- Os bydd yr ymgeisydd yn defnyddio ei ffôn ei hun a brynwyd ganddo at ddibenion personol, ac nad eir i unrhyw gostau pellach y tu hwnt i gostau misol arferol galwadau, data ac ati, nid yw hyn yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.

Gorbenion

Mae'n cynnwys cost:

- trydan
- llinellau ffôn a mynediad i'r rhyngrwyd

i'w defnyddio yn ystod ymgyrch yr ymgeisydd.

Mae'n cynnwys cost tanysgrifio ar gyfer gwasanaethau monitro'r cyfryngau a gwasanaethau datganiadau i'r wasg a gwifren y wasg.

Costau sy'n gysylltiedig ag asiantiaid, gwirfoddolwyr a chyflogeion

Mae'n cynnwys cost llety i'r asiant, lle mae'n cael ei had-dalu gan yr ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall.

Mae'n cynnwys cost gwirfoddolwyr, cyflogeion a chyflogeion plaid lle maent yn ymgyrchu dros yr ymgeisydd mewn ardal etholiadol benodol, gan gynnwys eu costau llety os ydynt yn cael eu had-dalu gan yr ymgeisydd, plaid yr ymgeisydd neu drydydd parti arall.

Costau nad ydynt wedi'u cynnwys

Nid yw'n cynnwys cost gofal plant i ymgeisydd na'i asiant na gwirfoddolwr.

Nid yw'n cynnwys cost dŵr, nwy na'r dreth gyngor.

Nid yw'n cynnwys llety a ddarperir gan unrhyw unigolyn arall sy'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa'r unigolyn os caiff ei ddarparu'n ddi-dâl.

Mae ‘treuliau personol’ yn cynnwys costau llety rhesymol yr ymgeisydd mewn perthynas â'r etholiad.

Lle bydd cost llety ar draul bersonol yr ymgeisydd, ni fydd hyn yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant. Os caiff ei thalu gan yr ymgeisydd, rhaid ei chofnodi fel traul bersonol ar y ffurflen gwariant.

Gweler tudalen 26 i gael rhagor o wybodaeth am dreuliau personol.

Defnyddio eitemau

Pan fyddwch yn defnyddio eitem am y tro cyntaf, rhaid i chi gynnwys y gost.

Eitemau na chânt eu defnyddio

Nid oes angen i chi roi gwybod am wariant ar eitemau na chânt eu defnyddio (er enghraifft, taflenni na chânt eu dosbarthu) ac ni fydd yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

Dylech gadw'r deunydd na chaiff ei ddefnyddio neu ddangos tystiolaeth o'i ddinistrio.

Os byddwch yn defnyddio'r eitemau dros ben mewn etholiad arall, rhaid i chi roi gwybod am y gwariant ar yr eitemau hynny yn yr etholiad hwnnw.

Ailddefnyddio eitemau

Pan fyddwch wedi talu am eitem, rhaid i chi roi gwybod am y gost lawn pan gaiff ei defnyddio gyntaf, hyd yn oed os byddwch yn bwriadu ei hailddefnyddio mewn etholiad arall yn y dyfodol.

Os byddwch yn gwneud hynny, nid oes angen i chi roi gwybod am y taliad gwreiddiol eto. Efallai y bydd rhai costau cysylltiedig y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt yn yr etholiad hwnnw, er enghraifft storio neu lanhau.

Treuliau personol

Mae treuliau personol yn cynnwys treuliau teithio a byw rhesymol yr ymgeisydd. Nid yw treuliau personol yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant, ond rhaid i chi roi gwybod amdanynt yn eich ffurflen gwariant.

Gall treuliau personol gynnwys llogi car i'r ymgeisydd os nad yw'r ymgeisydd yn berchen ar gar eisoes, neu os nad yw ei gar yn addas ar gyfer ymgyrchu. Er enghraifft, os ydych yn sefyll mewn etholaeth wledig, efallai y bydd yn rhesymol llogi cerbyd gyriant pedair olwyn i gyrraedd ardaloedd anghysbell.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu datganiad ysgrifenedig i'w hasiant o'u treuliau personol, a hynny o fewn 21 diwrnod i'r canlyniad gael ei ddatgan.

Beth na chaiff ei gynnwys o fewn gwariant ymgeiswyr?

Nid yw gwariant ar y pethau canlynol yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant:

- talu ernes ymgeisydd
- unrhyw beth (ac eithrio hysbysebion) sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig
- cyfleusterau a ddefnyddiwch am fod gennych hawl i wneud hynny fel ymgeisydd, megis ystafell gyhoeddus ar gyfer cyfarfod
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan eich staff nad ydych yn eu talu amdano
- y defnydd o brif gartref rhywun, a ddarperir am ddim
- y defnydd o gar personol rhywun neu ddull cludiant arall, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol yr unigolyn hwnnw ac a ddarperir am ddim
- y defnydd o gyfarpar cyfrifiadurol neu argraffu rhywun, a gaffaelwyd yn bennaf at ddefnydd personol y person hwnnw ac a ddarperir am ddim

We also expect that Parliament will have passed legislation meaning that costs reasonably attributable to the candidate's disability do not count as candidate spending. Please call us for further advice if you are unsure whether this affects you.

Ymgyrchoedd lleol

Gelwir sefydliadau neu unigolion, nad ydynt yn sefyll fel ymgeiswyr yn yr etholiadau ond sy'n ymgyrchu dros neu yn erbyn ymgeisydd mewn etholaeth, yn ‘ymgyrchwyr lleol nad ydynt yn bleidiau’.

Gall ymgyrchwyr lleol nad ydynt yn bleidiau wario hyd at £700 yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar ymgyrchu dros neu yn erbyn ymgeisydd yn yr etholaeth.

Ni all ymgyrchydd lleol nad yw'n blaid wario mwy na £700 heb awdurdod ysgrifenedig yr asiant i fynd i'r gwariant ychwanegol.

Rhaid i'r ymgyrchydd lleol nad yw'n blaid roi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau am unrhyw wariant a awdurdodwyd gan yr asiant ac yr aeth ymgyrchwyr lleol nad ydynt yn bleidiau, a hynny o fewn 21 diwrnod i ddatgan y canlyniad.

Rhaid i'r treuliau a awdurdodwyd gael eu cynnwys yn eich ffurflen gwariant i ymgeiswyr. Mae arian yr eir iddo gan ymgyrchwyr mewn ymgyrchoedd lleol a awdurdodwyd gan yr asiant yn wariant gan ymgeiswyr ac mae'n cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

Gall y treuliau hefyd gael eu talu gan y person sydd wedi’i awdurdodi i fynd iddynt. Os gwnânt y taliadau, a bod y gwariant dros £50, yna bydd hyn yn rhodd i’r ymgeisydd, a bydd rhaid adrodd amdano ar y ffurflen gwariant.

Gweler tudalen 40 am fanylion ar wneud taliadau, ac adran B am ragor o wybodaeth am roddion.

Dylai ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau sy'n cynllunio ymgyrch leol ddarllen ein canllawiau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Eitemau a dderbynnir yn rhad ac am ddim neu am bris gostyngol a 'gwariant tybiannol'

Weithiau efallai byddwch yn defnyddio rhywbeth yn eich ymgyrch nad oedd angen i chi wario arian arno oherwydd cafodd ei ddarparu i chi fel buddiant, yn rhad ac am ddim neu am bris gostyngedig.

Gallai rhai enghreifftiau o fuddiant gynnwys:

- lle mewn neuadd ar gyfer digwyddiad
- taflenni
- darparu bwyd a thrafnidiaeth i wirfoddolwyr

Pan fydd hyn yn digwydd, bydd gwerth masnachol llawn yr hyn a ddefnyddiwyd gennych yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant a rhaid iddo gael ei adrodd.

Gelwir hyn yn ‘wariant tybiannol’.

Mae’n rhaid bodloni pedwar prawf er mwyn i eitem gyfrif fel gwariant tybiannol:

- mae’r eitem yn cael ei throsglwyddo i chi, neu fe’i darperir i chi at eich defnydd neu'ch budd yn rhad ac am ddim neu am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%
- mae'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng gwerth masnachol yr eitem a'r hyn a dalwch dros £50
- rydych yn defnyddio’r eitem yn eich ymgyrch (neu mae rhywun arall yn gwneud hynny ar eich rhan)
- byddai’r eitem wedi bod at dreuliau etholiad pe byddech wedi mynd i wariant (gweler Beth sy'n cyfri fel gwariant ymgeisydd ar dudalen 7)

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi gan gyflenwyr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfradd arbennig nad yw ar gael ar y farchnad agored.

Trosglwyddwyd i'r ymgeisydd neu darparwyd ar ei gyfer

Mae'n rhaid i'r eitem gael ei ddarparu ar gyfer yr ymgeisydd neu ei drosglwyddo iddo er mwyn iddo gyfrif fel gwariant tybiannol.

Mae hyn yn golygu bydd unrhyw wariant tybiannol hefyd yn rhodd i'r ymgeisydd, a bydd rhaid adrodd amdano ar wahân yn adran rhoddion y ffurflen gwariant. Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau ynglŷn â rhoddion yn Adran B o'r canllawiau hyn.

Er enghraifft:

- mae plaid yn anfon taflenni at un o'i hymgeiswyr i'w defnyddio yn ei ymgyrch – felly mae'r taflenni wedi'u trosglwyddo i'r ymgeisydd.
- Os yw'r ymgeisydd yn dosbarthu'r taflenni, mae'n rhaid i'w gwerth (dros £50) gael eu hadrodd fel gwariant tybiannol.

Os na chaiff eitem sy'n hyrwyddo'ch etholiad ei darparu i chi, yna mae'n debygol mai ymgyrchu lleol ydyw gan bwy bynnag sydd wedi cynnal y gweithgaredd – gweler yr adran flaenorol.

Gostyngiadau masnachol ac anfasnachol

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi gan gyflenwyr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfradd arbennig nad yw ar gael ar y farchnad agored.

Defnydd gan neu ar ran yr ymgeisydd

Os darperir buddiant i'r ymgeisydd, bydd ond yn cyfrif fel gwariant tybiannol os y'i defnyddir gan yr ymgeisydd yn ei ymgyrch, neu gan rywun sy'n gweithredu ar ei ran.

Os cyflawnir gweithgaredd ymgyrchu sy'n cefnogi'r ymgeisydd gan rywun arall, nid yw'n ddigon bod yr ymgeisydd wedi elwa o'r gweithgaredd, wedi clywed amdano, neu hyd yn oed wedi dweud diolch i'r person wnaeth ei gyflawni.

Bydd person ond yn defnyddio rhywbeth ar ran ymgeisydd os yw'r defnydd hwnnw wedi'i gyfarwyddo, ei awdurdodi neu ei annog gan yr ymgeisydd neu'r asiant.

Er mwyn i'r buddiant gael ei 'ddefnyddio', rhaid bod yr ymgeisydd wedi cymryd camau gweithredol (neu fod rhywun wedi gwneud hynny ar ei ran) i ddefnyddio'r nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarperir.

Gall 'defnyddio' gynnwys:

- cyfrannu'n bersonol – er enghraifft, mae'r blaid yn cynnig cynhyrchu a dosbarthu'ch taflenni ymgyrchu yn rhad ac am ddim; rydych yn derbyn y cynnig ac yn rhoi cynnwys ar y taflenni, gan ddefnyddio'r gwasanaeth a ddarperir gan y blaid
- trefnu bod rhywun arall yn cyfrannu ar eich rhan – er enghraifft, gofyn i wirfoddolwyr lleol y blaid i helpu dosbarthu taflenni a ddarperir i chi gan eich plaid

Enghreifftiau:

- mae argraffydd yn rhoi gostyngiad o 50% i'r ymgeisydd ar y pris i argraffu ei daflenni. Mae'r ymgeisydd yn derbyn y taflenni ac yn trefnu iddynt gael eu dosbarthu i bleidleiswyr.

  Drwy drefnu iddynt gael eu dosbarthu, mae'r ymgeisydd wedi trefnu i'r taflenni gael eu defnyddio ar ei ran. Rhaid adrodd am 50% o werth y costau argraffu fel gwariant tybiannol.
- mae plaid yn anfon taflenni at un o'i hymgeiswyr i'w defnyddio yn ei ymgyrch, ond nid yw'r ymgeisydd na'i asiant yn dosbarthu'r taflenni.

  Yma, ni ddefnyddiwyd y taflenni gan yr ymgeisydd nac ar ei ran, ac felly nid yw hyn yn wariant tybiannol.

Prisio staff ar secondiad

Os bydd cyflogwr yn secondio aelod o staff ar gyfer eich ymgyrch, rhaid i chi gofnodi ei gyflog gros ac unrhyw lwfansau ychwanegol fel gwariant tybiannol.

Nid oes angen i chi gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol na phensiwn y cyflogwr. Bydd angen i chi gynnwys gwerth unrhyw dreuliau, fel costau teithio neu fwyd, rydych chi neu'r cyflogwr yn eu had-dalu.

Prisio gwariant tybiannol

Gweler Sut ydych yn prisio rhodd? ar dudalen 53 i gael rhagor o ganllawiau ar brisio gwariant tybiannol a rhoddion.

Gwahanu gwariant

Weithiau, efallai y bydd angen i chi wahanu eich costau rhwng gweithgareddau sy'n cyfrif fel gwariant ymgeisydd a'r rhai nad ydynt yn cyfrif fel gwariant ymgeisydd.

Er enghraifft, rhwng:

- eitemau a ddefnyddiwyd cyn ac yn ystod y cyfnod a reoleiddir
- gwariant ar eich ymgyrch a gwariant ar weithgareddau eraill fel swyddfa rydych yn ei rhannu â'ch plaid leol

Ym mhob achos, dylech wneud asesiad gonest, yn seiliedig ar y ffeithiau, o gyfran y gwariant y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant fel ymgeisydd.

Er enghraifft, os ydych yn rhannu swyddfa plaid, efallai mai dim ond dadansoddiad o gostau galwadau dros werth penodol y gall eich bil ffôn ei ddarparu.

Yn yr achosion hyn, dylech ystyried y ffordd orau o wneud asesiad gonest ar sail yr wybodaeth sydd gennych. Er enghraifft, gallech gymharu'r bil ag un nad yw'n cwmpasu cyfnod a reoleiddir.

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybodaeth lawn a chywir am eich gwariant fel ymgeisydd. Dylech sicrhau eich bod yn deall y rheolau a bod pob gwariant wedi'i awdurdodi a'i gofnodi ac y rhoddir gwybod amdano'n gywir.

Pwysig

Ar ôl yr etholiad, bydd yn rhaid i chi lofnodi ffurflen i ddatgan ei bod yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred.

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol.

Os ydych yn dal yn ansicr, ffoniwch neu e-bostiwch ni i gael cyngor.

I gael rhagor o wybodaeth am wahanu gwariant, gweler:

- Papur arbenigol: gwahanu gwariant

Pleidiau gwleidyddol a gwariant etholiad

Bydd pleidiau gwleidyddol yn aml yn gwario arian mewn etholiadau, gan hyrwyddo'r blaid yn gyffredinol yn ogystal ag ymgeiswyr penodol.

Yn y cyfnod cyn rhai etholiadau penodol, mae gan bleidiau eu terfynau gwariant eu hunain ar gyfer ymgyrchu. Mae'r rhain ar wahân i derfyn gwariant yr ymgeisydd.

Penderfynu a yw eitem yn cyfrif fel gwariant i hyrwyddo ymgeisydd

Os bydd gweithgaredd wedi'i anelu at bleidleiswyr yn yr ardal etholiadol lle mae'r ymgeisydd yn sefyll er mwyn hyrwyddo neu sicrhau ethol yr ymgeisydd hwnnw, yna bydd yn wariant i hyrwyddo'r ymgeisydd.

Er enghraifft, ystyrir gweithgaredd sy'n hyrwyddo plaid yn weithgaredd sy'n hyrwyddo ymgeisydd pan fydd yr eitem:

- yn enwi'r ymgeisydd penodol
- yn enwi'r ardal etholiadol benodol lle mae'r ymgeisydd yn sefyll

Mae'r senarios canlynol yn cynnwys enghreifftiau o wariant gan ymgeisydd ac enghreifftiau o wariant gan blaid wleidyddol.

- Mae ymgeisydd yn llunio taflen sy'n annog pleidleiswyr i bleidleisio dros ei blaid mewn ardal etholiadol benodol. Caiff yr ardal etholiadol ei henwi yn y daflen. Gwariant ymgeisydd yw hyn, a rhaid iddo ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd.

- Mae ymgeisydd yn gosod hysbysfwrdd ar ochr y ffordd â llun ohono arno. Mae'r hysbysfwrdd wedi'i leoli mewn gorsaf y tu allan i'r ardal etholiadol ond mae llawer o gymudwyr o'r ardal etholiadol yn defnyddio'r orsaf honno. Mae'n bosibl adnabod yr ymgeisydd o'r hysbysfwrdd, ac mae wedi'i anelu at bleidleiswyr yn ardal etholiadol yr ymgeisydd. Mae'n rhaid cynnwys hyn yn ffurflen yr ymgeisydd.

- Mae plaid wleidyddol yn cynhyrchu llythyr sy'n nodi polisïau'r blaid ac yn annog pleidleiswyr i bleidleisio dros ymgeisydd penodol yn yr ardal etholiadol honno yn y llinellau olaf. Gan fod modd adnabod yr ymgeisydd, dylid ystyried bod y llythyr wedi cael ei ddosbarthu at ddibenion ethol yr ymgeisydd. Os gwneir defnydd o'r daflen gan neu ar ran yr ymgeisydd, yna rhaid iddi ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd fel gwariant tybiannol (gweler t29). Os na wneir defnydd ohoni gan neu ar ran yr ymgeisydd, bydd yn cyfrif fel ymgyrchu lleol dros yr ymgeisydd (gweler t28).

- Mae plaid wleidyddol yn cynhyrchu hysbyseb sy'n nodi polisïau'r blaid ac yn gofyn i bleidleiswyr bleidleisio dros y blaid yn yr ardal etholiadol honno. Er nad yw'r hysbyseb yn enwi'r ymgeisydd, mae'n enwi'r ardal etholiadol. Felly dylid ystyried bod yr hysbyseb wedi cael ei dosbarthu at ddibenion ethol ymgeisydd y blaid. Os gwneir defnydd o'r hysbyseb gan neu ar ran yr ymgeisydd, yna rhaid iddi ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd fel gwariant tybiannol (gweler t29). Os na wneir defnydd ohoni gan neu ar ran yr ymgeisydd, bydd yn cyfrif fel ymgyrchu lleol dros yr ymgeisydd (gweler t28).

- Mae plaid wleidyddol yn cynhyrchu llythyr sy'n nodi polisïau'r blaid ac yn annog pleidleiswyr i bleidleisio dros y blaid. Er bod y llythyr yn cael ei anfon i gartref yn yr ardal etholiadol, nid yw'r llythyr ei hun yn nodi enw'r ymgeisydd na'r ardal etholiadol. Ni ddylid ystyried bod hwn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion etholiad yr ymgeisydd. Felly nid oes angen cynnwys gwariant yn ffurflen yr ymgeisydd.

Deunydd a ddosberthir mewn nifer o ardaloedd etholiadol
Lle mae deunydd:

- yn cynnwys ymgeisydd
- yn cael ei ddosbarthu ar draws ardal ehangach na'r ardal etholiadol benodol lle mae'r ymgeisydd yn sefyll

ystyrir bod cyfran o gost y deunydd hwn yn cael ei defnyddio at ddibenion ethol yr ymgeisydd.

Y gyfran yr ystyrir ei bod yn cael ei defnyddio at ddibenion ethol yr ymgeisydd yw cost dosbarthu'r deunydd yn ardal etholiadol benodol yr ymgeisydd hwnnw.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn enghreifftiau o wariant gan blaid wleidyddol.

- Caiff taflen sy'n cynnwys arweinydd y blaid ei dosbarthu ledled Prydain Fawr, gan gynnwys yn yr ardal etholiadol lle mae arweinydd y blaid yn sefyll. Dylid ystyried bod y taflenni sy'n cael eu dosbarthu yn ardal etholiadol arweinydd y blaid wedi cael eu dosbarthu at ddibenion ethol yr arweinydd fel ymgeisydd.

- Mae cynghorydd lleol blaenllaw yn ymddangos ar daflen sy'n cael ei dosbarthu ledled y sir gyfan, gan gynnwys yn yr ardal etholiadol benodol lle mae'r cynghorydd yn sefyll. Dylid ystyried bod y taflenni sy'n cael eu dosbarthu yn ardal etholiadol y cynghorydd wedi cael eu dosbarthu at ddibenion ethol y cynghorydd fel ymgeisydd.

- Mae plaid yn paratoi ymgyrch ddigidol yn cynnwys aelod poblogaidd o'r blaid mewn ardal benodol o'r wlad. Mae'r aelod hwnnw o'r blaid yn ymgeisydd mewn un rhan o'r ardal honno. Mae'r deunydd wedi'i dargedu at grŵp penodol o bleidleiswyr a bydd yn ymddangos ar ffrydiau cyfryngau cymdeithasol rhywun sy'n aelod o'r grŵp targed. Mae'r grŵp targed yn cynnwys lleoliad daearyddol. Ystyrir bod y gyfran o'r ymgyrch sydd wedi'i thargedu yn ardal etholiadol yr aelod blaenllaw o'r blaid wedi'i chyhoeddi at ddiben ei ethol fel ymgeisydd.

Yn yr enghreifftiau uchod, os *defnyddir yr eitem gan neu ar ran* yr ymgeisydd, yna rhaid i'r gyfran berthnasol o gost targedu ardal etholiadol yr ymgeisydd ymddangos yn ffurflen yr ymgeisydd fel gwariant tybiannol (gweler t29). Os na wneir defnydd ohoni gan neu ar ran yr ymgeisydd, bydd yn cyfrif fel ymgyrchu lleol dros yr ymgeisydd (gweler t28).

- Mae plaid yn paratoi ymgyrch ddigidol sy'n cynnwys aelod poblogaidd o'r blaid ledled y wlad gyfan, gan gynnwys lle mae'r aelod o'r blaid yn ymgeisydd. Nid yw'r deunydd wedi'i dargedu ond bydd yn ymddangos os caiff geiriau penodol eu teipio mewn chwilotwr. Nid yw'n bosibl canfod pa mor aml na phryd yr ymddangosodd y deunydd i bleidleiswyr yn etholaeth yr aelod o'r blaid. Ni ddylid ystyried bod y deunydd hwn wedi cael ei ddefnyddio at ddiben ei etholiad fel ymgeisydd. Felly nid oes angen cynnwys gwariant yn ffurflen yr ymgeisydd.

Os ydych yn ansicr a yw gwariant yn wariant ar ymgeisydd neu'n wariant ar blaid, dylech gysylltu â ni.

Am ragor o wybodaeth am wariant ymgyrch plaid wleidyddol, gweler ein canllawiau ar wariant ymgyrch plaid.

Sut i asesu sut y dylid rhoi gwybod am eitem o wariant: a yw'n hyrwyddo ymgeisydd ac, os yw'n gwneud hynny, sut y dylid rhoi gwybod amdani

Mae'r adran hon yn dangos sut i gymhwyso'r canllawiau a roddwyd yn gynharach yn y ddogfen, ynglŷn ag a yw gwariant yn hyrwyddo ymgeisydd ac, os yw'n gwneud hynny, y ffyrdd gwahanol o roi gwybod amdano.

Ar gyfer unrhyw eitem o wariant sy'n un o'r mathau o wariant ar y rhestr ar dudalen 6, dylech bennu yn gyntaf a yw'r gwariant yn hyrwyddo'r ymgeisydd – gweler tudalen 32.

Os yw'n gwneud hynny, yna mae'r rheolau ar gyfer gwariant sy'n hyrwyddo ymgeisydd yn gymwys iddi.

Yna dylech nodi pa fath o wariant ydyw:

- gwariant arferol y mae'r ymgeisydd neu'r asiant yn mynd iddo
- gwariant tybiannol
- ymgyrchoedd lleol

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos pennu'n gyntaf a yw'r gwariant yn hyrwyddo'r ymgeisydd, ac yna pennu sut y dylid rhoi gwybod amdano.

- Mae plaid yn cynnal digwyddiad yn yr etholaeth. Mae arweinydd y blaid yn mynychu ac yn rhoi araith. Yn ystod yr araith, dim ond am bolisïau cenedlaethol y mae'r arweinydd yn siarad. Rhoddir gwahoddiad i'r ymgeisydd fynychu ac mae'n gwneud hynny. Nid yw'n chwarae unrhyw ran arall yn y digwyddiad.

  Nid yw'r digwyddiad yn nodi'r ymgeisydd yn ôl ei enw na thrwy'r ardal etholiadol.

  Gan nad yw'r digwyddiad yn nodi'r ymgeisydd, nid yw'n cyfrif fel gwariant i hyrwyddo'r ymgeisydd.

Bydd y gwariant ar y digwyddiad yn wariant plaid, os caiff ei gynnal yn ystod cyfnod a reoleiddir ar gyfer pleidiau.

- Mae plaid yn cynnal digwyddiad yn ardal etholiadol yr ymgeisydd. Mae arweinydd y blaid yn mynychu ac yn rhoi araith. Yn ystod yr araith, mae'r arweinydd yn sôn am bolisïau cenedlaethol y rhan fwyaf o'r amser, ond mae'n treulio deg munud yn sôn yn benodol am yr ardal etholiadol a'r ymgeisydd. Rhoddir gwahoddiad i'r ymgeisydd fynychu ac mae'n gwneud hynny. Nid yw'n chwarae unrhyw ran arall yn y digwyddiad.

  Gan fod yr ymgeisydd a'r ardal etholiadol yn cael eu henwi, ystyrir bod y rhan honno o'r digwyddiad yn hyrwyddo'r ymgeisydd.

  Nid oes dim wedi'i ddarparu i'r ymgeisydd er mwyn iddo ei ddefnyddio, felly nid yw'n wariant tybiannol. Yn hytrach, mae'r blaid yn ymgyrchu dros yr ymgeisydd.

  Mae'r gwariant ar y rhan o'r digwyddiad sy'n hyrwyddo'r ymgeisydd yn enghraifft o ymgyrchu lleol dros yr ymgeisydd. Rhaid i'r blaid beidio â mynd i fwy na £700 mewn treuliau ar hyrwyddo'r ymgeisydd, oni bai fod ganddi awdurdodiad ysgrifenedig gan yr asiant i wneud hynny.

- Mae'r blaid yn cynnal digwyddiad yn ardal etholiadol yr ymgeisydd. Mae arweinydd y blaid yn mynychu ac yn rhoi araith. Yn ystod yr araith, mae'r arweinydd yn sôn am bolisïau cenedlaethol, ond mae hefyd yn gwahodd yr ymgeisydd i roi ei araith ei hun am ddeg munud o'r amser. Mae'r ymgeisydd yn derbyn ac yn rhoi'r araith.

  Nodir yr ymgeisydd am ei fod ymddangos ar y llwyfan, felly ystyrir bod y rhan honno o'r digwyddiad yn hyrwyddo'r ymgeisydd.

  Mae'r blaid wedi rhoi cyfleuster i'r ymgeisydd – slot yn ystod y digwyddiad – ac mae'r ymgeisydd wedi'i ddefnyddio drwy roi'r araith.

Mae hyn yn wariant tybiannol. Rhaid cofnodi'r gwerth priodol yn ffurflen gwariant yr ymgeisydd, ac fel rhodd gan y blaid.

- Mae'r ymgeisydd yn cynnal digwyddiad yn ei ardal etholiadol, a drefnir gan ei asiant. Mae'r blaid yn darparu arian i dalu costau'r digwyddiad.

  Mae'r ymgeisydd yn rhan ganolog o'r digwyddiad felly mae'r gwariant hwn yn hyrwyddo'r ymgeisydd. Yr asiant sydd wedi mynd i'r gwariant, felly mae hyn yn wariant ymgeisydd arferol a rhaid iddo ymddangos ar y ffurflen.

  Mae unrhyw rodd o arian dros £50 a ddarperir gan y blaid yn rhodd i'r ymgeisydd a rhaid rhoi gwybod amdani yn yr adran rhoddion yn y ffurflen. Gweler adran B i gael rhagor o wybodaeth am roi gwybod am roddion.

Pwy sy'n gyfrifol am wariant ymgeisydd?

Ceir rheolau i sicrhau y gellir rheoli'r gwariant a'i gofnodi a rhoi gwybod amdano'n gywir.

Mae canllawiau ar wahân ar benodi asiantiaid etholiad ar gael ar ein gwefan.

Eich cyfrifoldeb **chi** yw rhoi gwybodaeth lawn a chywir am eich gwariant fel ymgeisydd. Dylech sicrhau eich bod yn deall y rheolau a bod pob gwariant wedi'i awdurdodi a'i gofnodi ac y rhoddir gwybod amdano'n gywir.

Yn ystod y cyfnod a reoleiddir, dim ond y bobl ganlynol y caniateir iddynt **fynd i gostau** ar wariant etholiadol:

- yr asiant
- yr ymgeisydd
- unrhyw un a awdurdodir gan yr ymgeisydd neu'r asiant

Ystyr '**mynd i gostau**' yw gwneud ymrwymiad cyfreithiol i wario arian

Os ydych yn awdurdodi rhywun i fynd i gostau ar ran ymgeisydd, mae'n arfer dda gwneud hynny'n ysgrifenedig a nodi'n glir faint y gall ei wario ac ar beth.

Rhaid i'r asiant, yn hytrach na'r ymgeisydd, wneud **taliadau** ar gyfer y rhan fwyaf o wariant yr ymgeisydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir. Ceir pedwar eithriad:

- gall yr ymgeisydd dalu am eitemau cyn i'r asiant gael ei benodi
- gall yr ymgeisydd dalu am hyd at £600 mewn treuliau personol
- gall yr asiant awdurdodi rhywun yn ysgrifenedig i dalu am fân dreuliau fel deunydd ysgrifennu neu gostau postio. Rhaid i'r awdurdodiad gynnwys swm y taliad
- os yw'r asiant wedi rhoi awdurdodiad ysgrifenedig i rywun fynd i wariant ar ran yr ymgeisydd fel nad yw'r gariant yn cyfrif tuag at derfyn y person hwnnw, sef £50 + 0.5c yr etholwr

Mewn etholaethau sirol yn unig, gall asiantiaid etholiad benodi is-asiant i'w helpu gyda'u gwaith. Mae is-asiant yn gweithredu ar ran yr asiant, ond yr asiant etholiad sy'n bennaf cyfrifol am unrhyw beth a wna'r is-asiant.

Mae rhagor o wybodaeth am benodi is-asiant ar gael ar ein gwefan

(gweler Ymgyrchu lleol ar dudalen 31), yna mae'r person sydd wedi'i awdurdodi i fynd i wariant hefyd yn gallu gwneud y taliadau ar gyfer y gwariant hwnnw.

Os gwneir y taliadau gan unrhyw un heblaw'r ymgeisydd, asiant neu is-asiant - er enghraifft gan berson sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig i fynd i wariant - yna bydd hyn yn rhodd i'r ymgeisydd os ydyw dros £50 (ac ni chaiff ei ad-dalu gan yr asiant). Gweler adran B i gael rhagor o wybodaeth am roddion.

Gall ymgeiswyr hefyd weithredu fel eu hasiant etholiad eu hunain.

Ar ôl iddo gael ei benodi, rhaid i'r asiant gadw anfonebau neu dderbynebau ar gyfer unrhyw daliadau o £20 a throsodd.

Dylech sicrhau bod eich gwirfoddolwyr a'ch ymgyrchwyr yn ymwybodol o'r rheolau hyn ac yn gwybod pwy all ac na all fynd i gostau neu dalu costau.

Y cofnodion y mae'n rhaid i chi eu cadw

Rhaid i chi gofnodi'ch holl wariant fel ymgeisydd. Bydd angen i chi gynnwys yr wybodaeth hon ar eich ffurflen gwariant ar ôl yr etholiad.

Ar ôl iddo gael ei benodi, yr asiant fydd yn gyfrifol am bob taliad mewn perthynas â threuliau'r etholiad a rhaid iddo gadw anfonebau neu dderbynebau ar gyfer unrhyw daliadau o £20 neu fwy.

Yr hyn y mae angen i chi ei gofnodi

Ar gyfer pob eitem o wariant ymgeisydd a threuliau personol, dylech gofnodi'r wybodaeth ganlynol i'w rhoi ar eich ffurflen gwariant:

- ar gyfer beth roedd y gwariant – er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth

Pwysig

Rhaid i bob cost gynnwys TAW, hyd yn oed os gallwch adennill taliadau TAW.

- ar ba ddyddiad y gwnaethoch wario'r arian

Rhaid i chi gynnwys gwerth masnachol llawn eitemau neu wasanaethau a roddwyd i chi am ddim neu a roddwyd i chi am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%, lle mae'r eitem neu'r gwasanaeth yn werth mwy na £50. Gweler tudalen 28 i gael rhagor o wybodaeth am wariant tybiannol.

Ar ôl yr etholiad

Ar ôl yr etholiad, rhaid i'r asiant gydymffurfio â'r terfynau amser ar gyfer:

- derbyn a thalu anfonebau
- cyflwyno ffurflen gwariant a rhoddion i'r swyddog canlyniadau lleol.

Rhaid i'r asiant a'r ymgeisydd hefyd gyflwyno datganiadau bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir.

Rhaid i chi gyflwyno ffurflen a datganiadau, hyd yn oed os nad ydych wedi gwario unrhyw arian. Gelwir hwn yn ddatganiad ‘dim trafodion’.

Nodir y terfynau amser hyn, a rhagor o wybodaeth am roi gwybod am wariant, yn Adran C o'r canllawiau hyn.

Adran B – Eich rhoddion

Mae'r adran hon yn esbonio'r rheolau ynglŷn â rhoddion, sut i gadarnhau p'un a ellir derbyn rhodd a pha wybodaeth y mae angen i chi ei chofnodi.

Trosolwg o'r rheolau

Dim ond rhoddion o arian, eitemau neu wasanaethau tuag at eu gwariant ar ymgyrch gan ffynonellau penodol a leolir yn y DU yn bennaf y gall ymgeiswyr eu derbyn, a rhaid iddynt roi gwybod amdanynt i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), neu yn achos ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon i'r Prif Swyddog Etholiadol, ar ôl yr etholiad.

Mae hyn yn cynnwys rhoddion gan eich plaid wleidyddol eich hun.

Gall yr ymgeisydd a'r asiant etholiad gael rhoddion tuag at wariant ymgeisydd, ond unwaith bod asiant etholiad wedi'i benodi, rhaid i roddion gael eu trosglwyddo iddo mor gyflym â phosibl. Rhaid i'r asiant etholiad gadarnhau bod rhoddion yn unol â'r rheolau cyn eu derbyn.

Rhaid i'r ymgeisydd a'r asiant lofnodi datganiad ar eu ffurflen treuliau yn dweud bod y ffurflen rhoddion yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eu gwybodaeth. Felly mae angen i'r ymgeisydd sicrhau bod ei asiant yn dilyn y rheolau.

Os na phenodwyd asiant, yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am drafod a gwirio rhoddion.

Yn yr adran hon, rydym yn defnyddio ‘chi’ i gyfeirio at y person sy'n gyfrifol am ymdrin â rhoddion ar y pryd.

Mae i'r adran hon o'r canllawiau ddwy ran:

Mae **Rhan Un** yn esbonio'r rheolau ynglŷn â rhoddion, a chan bwy y gallwch eu derbyn.

Mae **Rhan Dau** yn esbonio'r gwiriadau y bydd angen i chi eu gwneud ar fathau gwahanol o roddwyr, a'r wybodaeth y bydd angen i chi ei chofnodi.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am roi gwybod am roddion ar ôl yr etholiad yn Adran C.

Rhan Un - Rhoddion

Beth sy'n cyfrif fel rhodd?

Rhodd yw arian, eiddo, nwyddau neu wasanaethau a roddir:

- tuag at eich gwariant fel ymgeisydd
- heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol

ac sy'n werth dros £50. Nid ystyrir bod unrhyw beth sy'n £50 neu lai yn rhodd.

Mae enghreifftiau cyffredin o roddion yn cynnwys:

- rhodd arian neu fath arall o eiddo
- talu anfoneb ar gyfer gwariant ymgeisydd a fyddai fel arall yn cael ei thalu gennych chi
- benthyciad nas rhoddwyd ar delerau masnachol
- nawdd i ddigwyddiad neu gyhoeddiad
- defnydd am ddim, neu am bris gostyngol arbennig, o eiddo neu gyfleusterau, er enghraifft defnydd am ddim o swyddfa

Rhaid i chi gynnwys rhoddion tuag at wariant ymgeisydd hyd yn oed os ydych yn eu cael cyn i chi ddod yn ymgeisydd.

Pwysig

Cronfeydd ymladd pleidiau lleol
Mae llawer o bleidiau gwleidyddol yn cynnal cronfeydd ymladd lleol i ymgeiswyr. Os yw'r gronfa wedi'i rheoli gan y blaid ac nid yr ymgeisydd, caiff rhoddion i'r gronfa eu trin fel rhoddion i'r blaid fel arfer. Nid oes angen i chi eu trin fel rhoddion i'r ymgeisydd, oni bai y caiff y rhoddion eu gwneud yn benodol tuag at eich ymgyrch etholiadol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi roi gwybod am roddion gan y blaid i'ch ymgyrch yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Gan bwy y gallwch dderbyn rhodd?

Dim ond o ffynhonnell a ganiateir y gallwch dderbyn rhoddion. Ffynhonnell a ganiateir yw:

- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar un o gofrestrau etholiadol y DU, gan gynnwys etholwyr tramor
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru ym Mhrydain Fawr
- plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yng Ngogledd Iwerddon (dim ond os ydych yn sefyll i gael eich ethol yng Ngogledd Iwerddon).
- y rhan fwyaf o gwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn y DU
- undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU
- cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi'i chofrestru yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
- cymdeithas gyfeillgar sydd wedi'i chofrestru yn y DU
- cymdeithas anghorfforedig sydd wedi'i lleoli yn y DU ac sy'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Gallwch hefyd dderbyn rhoddion gan fathau penodol o ymddiriedolaethau a chan gymynroddion. Mae'r rheolau ynglŷn â'r rhoddion hyn yn gymhleth, felly cysylltwch â ni i gael rhagor o wybodaeth.

Er y gallwch dderbyn yn gyfreithiol roddion gan elusennau sy'n gwmnïau cofrestredig, ni chaniateir i elusennau wneud rhoddion gwleidyddol fel arfer o dan gyfraith elusennau. Dylech gadarnhau bod unrhyw elusen sy'n cynnig rhodd wedi cael cyngor gan y rheoleiddiwr elusennau perthnasol yn y DU cyn ei derbyn.

Sut ydych yn penderfynu a allwch dderbyn rhodd?

Pan fyddwch yn cael unrhyw rodd o fwy na £50, rhaid i chi sicrhau ar unwaith eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr a bod y rhodd yn dod o ffynhonnell a ganiateir.

Pan fyddwch yn cael rhodd, bydd gennych 30 diwrnod i benderfynu a allwch ei derbyn ai peidio.

Dylech ofyn i chi'ch hun:

- ‘a wyf yn siŵr fy mod yn gwybod pwy sydd wedi rhoi'r rhodd hon?’
- ‘a yw'r rhoddwr yn un a ganiateir?’

Os:

- nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu
- am unrhyw reswm arall na allwch fod yn siŵr gan bwy yn union y rhoddwyd y rhodd

rhaid i chi ei dychwelyd o fewn cyfnod o 30 diwrnod. Os na wnewch hynny, tybir eich bod wedi'i derbyn, ac efallai y byddwn yn gwneud cais i'r llysoedd am i'r rhodd gael ei fforffedu.

Os ydych wedi derbyn rhodd nas caniateir, dylech ddweud wrthym cyn gynted â phosibl.

Rhoddion a roddir ar ran eraill

Os rhoddir rhodd ar ran rhywun arall, rhaid i'r person sy'n rhoi'r rhodd i chi (yr asiant) ddweud wrthych:

- bod y rhodd ar ran rhywun arall
- manylion y rhoddwr gwirioneddol

Un enghraifft o rywun yn gweithredu fel asiant yw lle mae trefnydd digwyddiad yn trosglwyddo'r enillion o ginio a gynhaliwyd yn benodol i godi arian ar ran eich sefydliad.

Os oes gennych reswm dros gredu bod rhywun yn gweithredu fel asiant o bosibl ond nad yw wedi dweud wrthych, dylech ganfod y ffeithiau fel y gallwch wneud y gwiriadau priodol. **Os nad ydych yn sicr pwy yw'r rhoddwr gwirioneddol, ni ddylech dderbyn y rhodd.**

Pwysig

Os nad yw'r rhodd gan roddwr a ganiateir, neu os na allwch fod yn siŵr pwy yw'r ffynhonnell mewn gwirionedd am unrhyw reswm, rhaid i chi ei dychwelyd o fewn y cyfnod hwn o 30 diwrnod.

Pryd ydych yn 'cael' rhodd?

Rydych fel arfer yn ‘cael’ rhodd ar y diwrnod rydych yn dod yn berchen arni. Er enghraifft:

- os rhoddir taflenni am ddim i chi, rydych yn cael y rhodd pan gaiff y taflenni eu trosglwyddo i chi.
- os rhoddir siec i chi, rydych yn cael y rhodd ar y diwrnod y mae'r siec yn cael ei chlirio.
- os trosglwyddir rhodd yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc rydych yn cael y rhodd ar y dyddiad rydych yn cael gwybod gan y banc am y taliad hwnnw yn y ffordd arferol. Os oes gennych gyfrif sydd â chyfleuster ar-lein, y dyddiad pan ddangosir y taliad gyntaf ar eich cyfriflen ar-lein fydd hwn. Os nad oes gennych gyfleuster ar-lein, y dyddiad pan gewch wybod drwy eich cyfriflen banc ffisegol fydd hwn.

Sut ydych yn dychwelyd rhodd?

Os gwyddoch pwy yw'r rhoddwr, rhaid i chi ddychwelyd y rhodd ato.

Os daw'r rhodd o ffynhonnell anhysbys (er enghraifft, rhodd arian o £100 yn ddienw), rhaid i chi ei dychwelyd at:

- y sawl a drosglwyddodd y rhodd i chi; neu
- y sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd.

Os nad ydych yn gwybod pwy yw'r naill na'r llall, rhaid i chi anfon y rhodd i ni. Byddwn yn ei thalu i mewn i gronfa gyfunol y Llywodraeth.

Os byddwch wedi ennill llog ar y rhodd cyn i chi ei dychwelyd, gallwch ei gadw. Ni chaiff y llog hwn ei drin fel rhodd ac nid oes angen rhoi gwybod amdano.

Ymgeiswyr sy'n aelodau plaid neu'n ddeiliaid swydd etholedig

Os ydych yn aelod o blaid wleidyddol gofrestredig neu os ydych eisoes yn dal rhyw swydd etholedig berthnasol, mae angen i chi ddilyn y rheolau ynglŷn â rhoddion a benthyciadau i chi, sy'n ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol cyn y cyfnod a reoleiddir. Er enghraifft, efallai y cewch rodd i helpu i ariannu'ch ymgyrch i gael eich ethol yn ymgeisydd, neu ar gyfer gweithgarwch ymgyrchu cyn dechrau'r cyfnod a reoleiddir.

Deiliaid swydd etholedig yw:

- aelod o Senedd y DU
- aelod o Senedd yr Alban
- aelod o Senedd Cymru
- aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon
- aelod o unrhyw awdurdod lleol yn y DU, heb gynnwys cynghorau plwyf neu gymuned
- aelod o Awdurdod Llundain Fwyaf
- Maer Llundain neu unrhyw faer etholedig arall, neu
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Galwn yr unigolion hyn yn 'dderbynwyr a reoleiddir'. Os ydych yn dderbynnydd a reoleiddir a'ch bod yn cael rhoddion neu fenthyciadau penodol gwerth mwy na £500, gallwch ond eu derbyn o ffynonellau a ganiateir. Mae gennych 30 diwrnod ar ôl i chi eu cael i benderfynu a ddylech eu derbyn.

Os derbyniwch rodd neu fenthyciad gwerth mwy na £1,500 (neu roddion neu fenthyciadau o un ffynhonnell sy'n gwneud cyfanswm o fwy na £1,500), rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.

Pwysig

Nid oes yn rhaid i Aelodau Seneddol roi gwybod yn uniongyrchol i ni am roddion a benthyciadau a ganiateir. Bydd y Cofrestrydd Buddiannau Ariannol Aelodau yn trosglwyddo'r wybodaeth berthnasol i ni er mwyn i ni allu cadarnhau eu bod yn rhoddion a benthyciadau a ganiateir a chyhoeddi manylion ar ein cofrestrau.

Mae angen i aelodau roi gwybod i ni yn uniongyrchol o hyd os byddant yn dychwelyd rhodd am nad yw'r rhoddwr yn un a ganiateir.

Os cewch eich ethol, bydd y rheolau hyn hefyd yn gymwys i chi ar ôl i chi gael eich ethol. Gallwch weld ein canllawiau ar y rheolau hyn ar ein gwefan.

Sut ydych yn prisio rhodd?

Rhaid i chi brisio unrhyw rodd nad yw'n arian parod. Gwerth y rhodd yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth yr hyn a gewch a'r swm (os o gwbl) a dalwch amdano.

Os rhoddir eiddo, nwyddau neu wasanaethau am ddim i chi, neu am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%, rhaid i chi eu prisio ar gyfradd y farchnad.

Er enghraifft:

Cyfradd y farchnad am nwyddau	-	Y pris a dalwch	=	Gwerth y rhodd
£200	-	£100	=	£100

Neu:

Cyfradd y farchnad am wasanaethau	-	Y pris a dalwch	=	Gwerth y rhodd
£150	-	£0	=	£150

Os mai darparwr masnachol yw'r rhoddwr, dylech ddefnyddio'r cyfraddau y mae'n eu codi ar gwsmeriaid eraill. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr tebyg yn ei godi am yr un eiddo, nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel y gwerth masnachol.

Os byddwch yn dal i fod yn ansicr ynghylch sut y dylech brisio rhodd benodol, e-bostiwch neu ffoniwch ni i gael cyngor.

Dylech gadw cofnod o'r modd y lluniwyd eich prisiad.

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi gan gyflenwyr. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfradd arbennig nad yw ar gael ar y farchnad agored.

Prisio rhodd drwy nawdd

Os bydd rhywun yn noddi cyhoeddiad neu ddigwyddiad ar ran yr ymgeisydd, gwerth y rhodd yw'r swm llawn a dalwyd ganddo.

Ni ddylech ddidynnu unrhyw symiau ar gyfer unrhyw fudd y mae'n ei gael drwy'r nawdd.

Rhoddir rhagor o wybodaeth yn ein

Taflen Ffeithiau: Nawdd

Prisio mathau eraill o roddion

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am brisio gofod swyddfa a staff wedi'u secondio yn y Papur arbenigol: Gwahanu gwariant ar ymgyrchu.

Pa gofnodion sydd angen i chi eu cadw?

Rhoddion a dderbyniwyd gennych

Os derbyniwch rodd gwerth dros £50, rhaid i chi gofnodi'r manylion hyn:

- enw a chyfeiriad y rhoddwr
- os mai cwmni yw'r rhoddwr, rhif cofrestru'r cwmni
- y swm (ar gyfer rhodd ariannol) neu natur a gwerth y rhodd (ar gyfer rhodd anariannol)
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y derbyniwyd y rhodd

Os mai unigolyn yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi ei gyfeiriad fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol berthnasol. Os mai etholwr tramor yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi ei gyfeiriad cartref. Y rheswm dros hyn yw na fydd unrhyw gyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol.

Os mai cwmni yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad cofrestredig y rhoddwr a rhif y cwmni fel y mae'n ymddangos ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

Os mai cymdeithas anghorfforedig yw'r rhoddwr, rhaid i chi gofnodi cyfeiriad y brif swyddfa, a hynny am nad oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig y gellir cyfeirio ati.

Rhoddion a ddychwelwyd gennych

Os cewch rodd o ffynhonnell nas caniateir, rhaid i'r asiant etholiad ei dychwelyd a chofnodi'r manylion canlynol:

- swm neu natur y rhodd a'i gwerth
- enw a chyfeiriad y rhoddwr (oni bai fod y rhodd yn ddienw)
- os nad ydych yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, manylion am sut y rhoddwyd y rhodd
- y dyddiad y cawsoch y rhodd
- y dyddiad y dychwelwyd y rhodd gennych
- y camau a gymerwyd gennych i ddychwelyd y rhodd (er enghraifft, yr unigolyn neu'r sefydliad y dychwelwyd y rhodd iddo)

Os na allwch adnabod y person a drosglwyddodd y rhodd i chi, na'r sefydliad ariannol a ddefnyddiwyd i drosglwyddo'r rhodd, rhaid i chi anfon y rhodd atom. Byddwn yn ei thalu i mewn i gronfa gyfunol y Llywodraeth.

Ar ôl yr etholiad

Bydd angen i chi gynnwys y manylion hyn ar eich ffurflen gwariant a rhoddion. Mae rhagor o wybodaeth am y ffurflen, a phryd y bydd angen i chi ei dychwelyd, yn Adran C.

Rhan Dau - Sut i gadarnhau eich bod yn gallu derbyn rhodd

Cyn i chi dderbyn unrhyw rodd o fwy na £50 at ddibenion gwariant ymgeisydd, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i:

- sicrhau eich bod yn gwybod pwy yw'r ffynhonnell wirioneddol
- cadarnhau bod y ffynhonnell yn un a ganiateir

Mae gennych 30 diwrnod i wneud hyn, a dychwelyd y rhodd os na allwch ei derbyn. Os cadwch rodd am fwy na 30 diwrnod, tybir eich bod wedi ei derbyn.

Os cadwch rodd nas caniateir ar ôl y cyfnod hwn, efallai y byddwn yn gwneud cais i'r llysoedd am iddi gael ei fforffedu.

Rhoddion gan unigolion

Beth sy'n gwneud unigolyn yn rhoddwr a ganiateir?
Rhaid i unigolion fod ar un o gofrestrau etholiadol y DU ar adeg rhoi'r rhodd. Mae hyn yn cynnwys etholwyr tramor.

Sut ydych yn cadarnhau'r hyn a ganiateir?
Gallwch ddefnyddio'r gofrestr etholiadol i gadarnhau a yw unigolyn yn rhoddwr a ganiateir. Mae hawl gan ymgeiswyr a'u hasiantiaid i gael copi am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn yn ystod y cyfnod cyn etholiad. Dim ond er mwyn cadarnhau a yw rhoddwr yn rhoddwr a ganiateir neu at ddibenion etholiadol eraill y cewch ddefnyddio'r gofrestr. Rhaid i chi beidio â'i rhoi i unrhyw un arall.

O dan amgylchiadau arbennig, mae gan bobl gofrestriad dienw. Os oes rhoddwr wedi'i gofrestru'n ddienw, cysylltwch â ni i gael cyngor.

Er mwyn cael copi o'r gofrestr, dylech gysylltu â'r adran cofrestru etholiadol yn eich cyngor lleol, neu'r Swyddfa Etholiadol ar gyfer Gogledd Iwerddon (EONI) fel y bo'n briodol, gan esbonio eich bod yn gofyn am un fel ymgeisydd mewn etholiad, neu fel asiant etholiad ar ran yr ymgeisydd.

Dylech ofyn i'r adran anfon yr holl ddiweddariadau i'r gofrestr atoch hefyd. Mae hyn yn bwysig oherwydd gall enw etholwr gael ei dynnu oddi ar y gofrestr ac felly ar adeg rhoi rhodd efallai na fydd yn rhoddwr a ganiateir.

Rhaid i chi edrych ar y gofrestr a'r diweddariadau'n ofalus, er mwyn sicrhau bod y person ar y gofrestr ar y dyddiad y cawsoch y rhodd.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?
Rhaid i chi gofnodi:

- enw llawn y rhoddwr
- y cyfeiriad fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol, neu os mai etholwr tramor yw'r person, ei gyfeiriad cartref

Efallai y bydd yn ddefnyddiol nodi rhif etholiadol y rhoddwr fel cofnod o'ch gwiriadau.

Rhoddion gan gwmnïau

Beth sy'n gwneud cwmni yn rhoddwr a ganiateir?
Mae cwmni yn rhoddwr a ganiateir:

- os yw wedi'i gofrestru yn gwmni yn Nhŷ'r Cwmnïau
- os yw wedi'i gorffori yn y DU, ac
- os yw'n cynnal busnes yn y DU

Rhaid i chi fod yn siŵr bod y cwmni yn bodloni pob un o'r tri maen prawf.

Sut y gallaf gadarnhau cofrestriad cwmni?
Dylech edrych ar y gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth Webcheck am ddim yn www.gov.uk/government/organisations/companies-house.cy.

Dylech edrych ar gofnod cofrestru llawn y cwmni.

Sut ydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU?
Rhaid i chi fodloni'ch hun bod y cwmni yn cynnal busnes yn y DU. Gall y busnes fod yn un nid er elw.

Hyd yn oed os ydych yn gyfarwydd â'r cwmni eich hun, dylech edrych ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau er mwyn gweld:

- a yw'r cwmni yn cael ei ddiddymu, yn segur, neu ar fin cael ei ddileu o'r gofrestr
- a yw cyfrifon a ffurflen flynyddol y cwmni yn hwyr

Mae'n bosibl bod cwmni yn dal i gynnal busnes os yw'n cael ei ddiddymu, yn segur neu'n hwyr yn cyflwyno dogfennau, ond dylech wneud gwiriadau ychwanegol er mwyn bodloni'ch hun mai felly y mae.

Os nad ydych yn siŵr o hyd bod cwmni yn rhoddwr a ganiateir ar ôl gwneud eich gwiriadau, e-bostiwch neu ffoniwch ni i gael cyngor.

O ran unrhyw gwmni, dylech ystyried edrych ar y canlynol:

- gwefan y cwmni
- cyfeirlyfrau ffôn neu wefannau dibynadwy masnachau perthnasol
- y cyfrifon diweddaraf a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau

Os nad ydych yn siŵr o hyd a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU, dylech ofyn am gadarnhad ysgrifenedig gan gyfarwyddwyr y cwmni ynglŷn â'i weithgareddau busnes.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?
Rhaid i chi gofnodi:

- yr enw fel y mae'n ymddangos ar gofrestr Tŷ'r Cwmnïau
- cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni a
- rhif cofrestru'r cwmni.

Rhoddion gan bartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig

Beth sy'n gwneud partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir?
Mae partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir:

- os yw wedi'i chofrestru yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn Nhŷ'r Cwmnïau
- os yw'n cynnal busnes yn y DU

Sut ydych yn cadarnhau'r hyn a ganiateir?
Dylech edrych ar y gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth Webcheck am ddim yn www.gov.uk/government/organisations/companies-house.cy. Fel yn achos cwmnïau, rhaid i chi fodloni'ch hun bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cynnal busnes yn y DU. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn yr adran flaenorol 'Sut ydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU?'.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?
Rhaid i chi gofnodi:

- yr enw fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr
- cyfeiriad swyddfa gofrestredig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Dylech hefyd gofnodi rhif cofrestru'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Rhoddion gan gymdeithasau anghorfforedig

Beth sy'n gwneud cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?
Mae cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir:

- os bydd ganddi fwy nag un aelod
- os yw'r brif swyddfa yn y DU
- os yw'n cynnal busnes neu weithgareddau eraill yn y DU

Sut ydych yn cadarnhau'r hyn a ganiateir?

Nid oes unrhyw gofrestr o gymdeithasau anghorfforedig. Mae p'un a yw'n rhoddwr a ganiateir yn fater ffeithiol ym mhob achos.

Yn gyffredinol, cymdeithas anghorfforedig yw cymdeithas ag unigolion sydd wedi dod ynghyd i gyflawni diben a rennir.

Mae gan gymdeithas anghorfforedig aelodaeth adnabyddadwy sydd wedi'i rhwymo ynghyd gan reolau adnabyddadwy neu gytundeb rhwng yr aelodau. Mae'r rheolau hyn yn nodi sut y dylid rhedeg a rheoli'r gymdeithas anghorfforedig.

Weithiau, efallai y caiff y rheolau eu ffurfioli, er enghraifft mewn cyfansoddiad ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid oes rhaid eu ffurfioli. Er enghraifft, gall clybiau aelodau fod yn gymdeithasau anghorfforedig weithiau.

Os nad ydych yn siŵr a yw cymdeithas yn bodloni'r meini prawf, dylech ystyried a yw'r rhodd gan yr unigolion ynddi mewn gwirionedd (yn hytrach na'r gymdeithas) neu a oes rhywun yn y gymdeithas yn gweithredu fel asiant dros eraill.

Os credwch mai felly y mae, rhaid i chi gadarnhau bod pob un o'r unigolion a gyfrannodd fwy na £50 yn rhoddwyr a ganiateir a'u trin fel y rhoddwyr.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gynnal busnes yn yr adran flaenorol ‘Sut ydych yn cadarnhau a yw'r cwmni yn cynnal busnes yn y DU?’ ar dudalen 56.

Os hoffech gael mwy o ganllawiau ar roddwyr a ganiateir a chymdeithasau anghorfforedig, e-bostiwch neu ffoniwch ni i gael cyngor.

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- enw'r gymdeithas anghorfforedig
- prif gyfeiriad y gymdeithas anghorfforedig.

Mathau eraill o roddwyr

Mae'r tabl isod yn dangos sut rydych yn cadarnhau bod mathau eraill o roddwr yn rhoddwyr a ganiateir.

Math o roddwr	Gofyniad	Ble i edrych
Plaid wleidyddol	Os ydych yn sefyll etholiad ym Mhrydain Fawr, rhaid bod y blaid wedi'i chofrestru ar gofrestr Prydain Fawr o bleidiau gwleidyddol Os ydych yn sefyll etholiad yng Ngogledd Iwerddon, rhaid bod y blaid wleidyddol wedi'i chofrestru ar gofrestr Prydain Fawr NEU gofrestr Gogledd Iwerddon o bleidiau gwleidyddol	Y Comisiwn Etholiadol comisiwnetholiadol.org.uk
Undeb llafur	Wedi'i restru'n undeb llafur gan y Swyddog Ardystio	Y Swyddog Ardystio certoffice.org
Cymdeithas adeiladu	Cymdeithas adeiladu o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986	Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mutuals.fca.org.uk
Cymdeithas gyfeillgar / diwydiannol a darbodus	Wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 neu Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014	Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mutuals.fca.org.uk

Pa wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- enw'r rhoddwr
- y cyfeiriad, fel y mae'n ymddangos, ar y gofrestr berthnasol.

Adran C – Ar ôl yr etholiad

Mae'r adran hon yn esbonio sut i roi gwybod am gyllid eich ymgyrch ar ôl yr etholiad.

Beth y mae'n rhaid i chi ei wneud ar ôl yr etholiad a'r terfynau amser

Pwysig

Rhaid i chi gyflwyno ffurflen hyd yn oed os nad ydych wedi gwario unrhyw arian. Gelwir hyn yn 'ddatganiad dim trafodion'

Ar ôl yr etholiad, rhaid i'r asiant sicrhau'r canlynol:

- bod pob anfoneb yn dod i law o fewn 21 diwrnod ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan
- bod pob anfoneb yn cael ei thalu o fewn 28 diwrnod ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan
- rhaid rhoi gwybod i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) am fanylion gwariant a rhoddion yr ymgeisydd, o fewn 35 diwrnod ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei ddatgan, ynghyd â datganiad bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd gyflwyno datganiad yn cadarnhau bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). Rhaid gwneud hyn o fewn 7 diwrnod i gyflwyno'r ffurflen.

Os bydd yr ymgeisydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig pan fydd angen cyflwyno'r datganiad, caiff y terfyn amser ei ymestyn i 14 diwrnod ar ôl iddo ddychwelyd.

Mae copi o'r ffurflen gwariant a'r datganiadau y mae angen i chi eu cwblhau yma.

Anfonebau sy'n dod i law neu sy'n cael eu talu ar ôl y terfynau amser

Rydym yn galw hawliadau (anfonebau ar gyfer eich gwariant fel ymgeisydd) nad yw'r asiant etholiad yn eu cael o fewn y terfyn amser o 21 diwrnod yn **hawliadau heb eu talu**. Ni ellir yn gyfreithlon dalu hawliadau heb eu talu oni cheir gorchymyn llys yn caniatáu talu'r hawliad.

Gall fod yn drosedd talu hawliad heb ei dalu heb orchymyn llys

Rydym yn galw hawliadau nad ydynt wedi cael eu talu o fewn y terfyn amser yn **hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch**. Ni ellir yn gyfreithlon dalu hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch heb i orchymyn llys gael ei roi gyntaf yn caniatáu talu'r hawliad.

Rhaid i'r ymgeisydd neu'r asiant roi gwybod am unrhyw hawliad sy'n cael ei dalu

- ar ôl y terfyn amser o 21 diwrnod i dderbyn anfoneb; neu
- ar ôl y terfyn amser o 28 diwrnod ar gyfer taliadau

ar ôl cais **llwyddiannus** i'r llys, ac **ar ôl** y terfyn amser ar gyfer cyflwyno ffurflenni gwariant etholiad, yn ysgrifenedig i'r swyddog canlyniadau o fewn saith diwrnod i'w dalu, ynghyd â chopi o'r gorchymyn llys.

Cwblhau'ch ffurflen

Gelwir yr adroddiad ar wariant a rhoddion yn ‘ffurflen’.

Dylai'r ffurflen ddangos treuliau yr aed iddynt yn ystod yr ymgyrch hir a'r ymgyrch fer ar wahân, a rhaid iddi gynnwys y canlynol ar gyfer pob eitem o wariant:

- ar gyfer beth roedd y gwariant, er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth
- manylion unrhyw hawliadau sydd heb eu talu neu y mae anghydfod yn eu cylch
- manylion unrhyw wariant tybiannol, a datganiad o'i werth
- anfonebau a derbynebau ar gyfer unrhyw daliad o £20 neu fwy

Rhaid i'r ffurflen hefyd gynnwys:

- manylion pob rhodd dros £50

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y manylion y mae'n rhaid i chi eu cynnwys ar gyfer pob rhodd yn Adran B o'r canllawiau hyn.

Rhaid i'r ymgeisydd a'r asiant hefyd lofnodi datganiad bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred.

Pwysig

Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid

Ble y gallwch gael gafael ar y ffurflen gwariant a'r ffurflen datganiad

Rydym hefyd yn paratoi ffurflenni a nodiadau esboniadol y gallwch eu defnyddio ar gyfer eich ffurflen gwariant a'ch ffurflen datganiad. Mae'r rhain ar gael ar ein tudalen canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid. Maent yn cwmpasu'r holl wybodaeth y mae'n rhaid i chi ei chynnwys.

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y dogfennau canllaw a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
  pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
  infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
  gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau – e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk